

**From:** [Griffiths, Bryn](#)  
**To:** [Wylfa Newydd](#)  
**Cc:** [Wylfa Newydd DCO](#); [Energy Island](#); [Aron, Henry](#)  
**Subject:** Natural Resources Wales: Deadline 3 submission - Wylfa Newydd Nuclear Power Station (Our ref: 20011606)  
**Date:** 18 December 2018 10:38:34  
**Attachments:** [2018.12.18 NRW - Deadline 3 submission - 20011606.pdf](#)

---

Deadline 3 submission: Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) / Natural Resources Wales (NRW) – Our ref: 20011606

Dear Kay Sully,

Thank you for sending the Rule 8 letter (dated 6/11/2018) for NRW's attention.

Please see attached NRW's deadline 3 submission which includes NRW's comments on the Local Impacts Report

If you need any further information then please get in touch.

Many thanks

Bryn

### **Bryn Griffiths**

Uwch Gynghorydd Cynllunio Datblygu / Senior Development Planning Adviser  
Gwasanaeth Cyngori Cynllunio Datblygu / Development Planning Advisory Service  
Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales  
03000 655 238 / [REDACTED]  
Maes y Ffynnon, Bangor, LL57 2DW

Siaradwr Cymraeg 

[www.cyfoethnaturiol.cymru](http://www.cyfoethnaturiol.cymru) / [www.naturalresources.wales](http://www.naturalresources.wales)

Yn falch o arwain y ffordd at ddyfodol gwell i Gymru trwy reoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Proud to be leading the way to a better future for Wales by managing the environment and natural resources sustainably.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / Correspondence welcomed in both Welsh and English.

---

This email has been scanned by the Symantec Email Security.cloud service.  
For more information please visit <http://www.symanteccloud.com>

---



**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru  
Natural  
Resources  
Wales**

Ein cyf/Our ref: 20011606  
Eich cyf/Your ref: EN10007

Maes y Ffynnon,  
Penrhosgarnedd,  
Bangor,  
Gwynedd,  
LL57 2DW

The Planning Inspectorate  
Temple Quay House  
2 The Square  
Bristol  
BS1 6PN

[WylfaNewyddDCO@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:WylfaNewyddDCO@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)  
03000 655 238

18<sup>th</sup> December 2018

Er sylw / For the attention of: Ms Kay Sully

Annwyl / Dear Madam,

**GORSAF BŴER NIWCLEAR ARFAETHEDIG WYLFA NEWYDD / PROPOSED  
WYLFA NEWYDD NUCLEAR POWER STATION**

**CYFEIRNOD YR AROLYGIAETH GYNLLUNIO / PLANNING INSPECTORATE  
REFERENCE: EN10007**

**EIN CYFEIRNOD / OUR REFERENCE: 20011606**

**PARTHED: CYFLWYNIAD YSGRIFENEDIG CYFOETH NATURIOL CYMRU AR  
GYFER DYDDIAD CAU 3 – SYLWADAU AR YR ADRODDIAD EFFEITHIAU LLEOL**

**RE: NATURAL RESOURCES WALES' WRITTEN SUBMISSION FOR DEADLINE 3  
– COMMENTS ON THE LOCAL IMPACTS REPORT**

Diolch am eich llythyr Rheol 8, dyddiedig 6 Tachwedd 2018, sy'n gofyn am sylwadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ynglŷn â'r Adroddiad Effeithiau Lleol.

Mae CNC yn darparu'r sylwadau lefel uchel canlynol ar yr Adroddiad Effeithiau Lleol. Mae'r sylwadau a ddarperir yn y cyflwyniad hwn yn cynnwys ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru fel parti statudol o dan Ddeddf Cynllunio 2008 a'r Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Partïon a Chanddynt Fuddiant) 2015 ac fel 'parti â buddiant' o dan adran 102(1) o Ddeddf Cynllunio 2008.

Mae ein sylwadau'n cael eu cyflwyno heb ragfarnu unrhyw sylwadau eraill efallai y byddwn yn dymuno eu gwneud mewn perthynas â'r cais a'r archwiliad hwn, boed hynny mewn perthynas â'r Datganiad Amgylcheddol, darpariaethau'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu a'i ofynion, Datganiadau Tir Cyffredin, neu dystiolaeth a dogfennau eraill a ddarperir gan Horizon Nuclear Power ('yr Ymgeisydd'), y Corff Archwilio neu unrhyw bartion eraill a chanddynt fuddiant.

## **1. ADRODDIAD EFFEITHIAU LLEOL**

- 1.1. Mae'r Adroddiad Effeithiau Lleol wedi'i rannu'n benodau sy'n ymdrin ag effeithiau thematig/prosiect cyfan yn ogystal ag effeithiau ar safleoedd penodol. Mae pennod Ardal Datblygu Wylfa Newydd o'r Adroddiad Effeithiau Lleol yn ymdrin ag effeithiau sy'n benodol i brif safle Wylfa Newydd.
- 1.2. Mae adran 5.2.1 o'r bennod Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn cyfeirio at y derbynyddion a nodwyd sydd â gwerth isel, canolig neu uchel. Nodwn nad yw Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Morwenoliaid Ynys Môn wedi'i restru ac nad yw'n cael ei thrafod yn yr Adroddiad Effeithiau Lleol. Mae gan CNC bryderon sylweddol o ran AGA Morwenoliaid Ynys Môn ac rydym wedi cyngori yn ein Sylwadau Ysgrifenedig na ellir dod i gasgliad na fydd unrhyw effeithiau anffafriol ar gyfanrwydd safle AGA Morwenoliaid Ynys Môn. Cyfeiriwn yr Awdurdod Arholi at Sylwadau Ysgrifenedig CNC (adran 7.8) a gyflwynwyd ar gyfer dyddiad cau 2 sy'n esbonio pryderon CNC o ran effeithiau ar yr AGA.
- 1.3. Noda CNC fod Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Bae Cemlyn wedi'i restru yn adran 5.2.1 ond nad yw'n cael ei thrafod yn yr Adroddiad Effeithiau Lleol. Cyfeiriwn yr Awdurdod Arholi at adran 7.10 o Sylwadau Ysgrifenedig CNC.
- 1.4. Mae adran 5.1.2 o'r Adroddiad Effeithiau Lleol yn nodi bod "*yr Adroddiad Effeithiau Lleol yn canolbwyntio ar y derbynyddion neu'r agweddau hynny nad ydynt yn ddarostyngedig i gydsyniadau, caniatadau neu drwyddedu CNC, ac felly nid yw'n ystyried yr effeithiau ar safleoedd a ddiogelir yn statudol (SoDdGA, ACA ac ati)*". Dylid nodi, lle mae gweithgareddau wedi'u lleoli y tu allan i ffin safleoedd Ewropeaidd (e.e. AGA, ACA), lle maent hefyd yn cael eu tanategu gan Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), yna yn arferol ni fyddai angen cydsyniad na chaniatad SoDdGA gan CNC ar gyfer y gweithgareddau hynny. Mae CNC, fel y Corff Cadwraeth Natur Briodol, yn rhoi cyngor i'r Awdurdod Arholi ar safleoedd Ewropeaidd yn ei Sylwadau Ysgrifenedig

Mae croeso i chi gysylltu â Bryn Griffiths os oes angen rhagor o gyngor neu wybodaeth arnoch ynglŷn â'r sylwadau hyn.

---

Thank you for your Rule 8 letter, dated 6 November 2018, requesting Natural Resources Wales' (NRW) comments regarding the Local Impacts Report.

NRW provide the following high-level comments on the Local Impacts Report. The comments provided in this submission comprise NRW's response as a Statutory Party under the Planning Act 2008 and Infrastructure Planning (Interested Parties) Regulations 2015 and as an 'interested party' under s102(1) of the Planning Act 2008.


Our comments are made without prejudice to any further comments we may wish to make in relation to this application and examination whether in relation to the Environmental Statement, provisions of the draft Development Consent Order and its Requirements, Statements of Common Ground or other evidence and documents provided by Horizon Nuclear Power ('the Applicant'), the Examining Body or other interested parties.

## 1. LOCAL IMPACTS REPORT

- 1.1. The Local Impacts Report is split into chapters which deal with thematic/project wide impacts as well as site specific impacts. The Wylfa Newydd Development Area chapter of the Local Impacts Report deals with site specific impacts at the Wylfa Newydd main site.
- 1.2. Section 5.2.1 of the Wylfa Newydd Development Area refers to the receptors identified with a low, medium or high value. We note that the Anglesey Terns Special Protection Area is not listed and is not discussed in the Local Impacts Report. NRW has significant concerns with respect to the Anglesey Terns Special Protection Area (SPA) and has advised in its Written Representations that a conclusion of no adverse effects on site integrity of the Anglesey Terns SPA cannot be reached. We refer the Examining Authority to NRW's Written Representations (section 7.8) submitted for Deadline 2 which explains NRW's concerns with regard to effects on the SPA.
- 1.3. NRW note that Cemlyn Bay Special Area of Conservation (SAC) is listed in section 5.2.1 but is not discussed in the Local Impacts Report. We refer the Examining Authority to section 7.10 of NRW's Written Representations.
- 1.4. Section 5.1.2 of the Local Impacts Report states that *"the LIR focuses on those receptors or aspects that are not subject to NRW assents, consents or licensing, and so does not consider effects on statutorily protected sites (SSSIs, SACs, etc)"*. It should be noted that where activities are located outside the boundary of European sites (e.g. SPA, SAC), where they are also underpinned by Sites of Special Scientific Interest (SSSI), then no SSSI assent or consent would normally need to be issued for those activities. NRW, as the Appropriate Nature Conservation Body, provide advice to the Examining Authority on European sites in its Written Representations.

Please do not hesitate to contact Bryn Griffiths should you require further advice or information regarding these representations.

Yn gywir / Yours sincerely



**Rhian Jardine**  
**Head of Development Planning and Marine Services**  
**Natural Resources Wales**